**Y Pwyllgor Diwylliant CC-19-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

**Ymddiheuriadau**

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Margaret Evans (Pennaeth yr Is-adran Celfyddydau, Chwaraeon a'r Loteri)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r Gymraeg)

**Datganiadau o fuddiant:** Datganodd y Cadeirydd ei aelodaeth o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

Mae gwraig Dafydd Wigley yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru.

Mae g•r Lorraine Barrett wedi gwneud cais am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

**Sylwadau rhagarweiniol**

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal dau gyfarfod prynhawn Iau ychwanegol y tymor canlynol: 17 Ionawr a 14 Chwefror. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau mai'r unig ddyddiadau addas ar gyfer yr ymweliad â gwlad y Basg oedd 21-26 Mawrth 2002, a gofynnodd iddynt roi gwybod i'r ysgrifenyddiaeth a fyddent ar gael. Gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i'r ysgrifenyddiaeth hefyd a oeddent yn dymuno i ymweliad gael ei drefnu â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol brynhawn y 6ed Chwefror yn dilyn y sioe deithio yn y bore yn Neuadd Goffa Pontyberem.

Roedd y Cadeirydd wedi cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol â'r Gweinidog a'r Cyngor Chwaraeon ynghylch cwmpas yr adolygiad o chwaraeon. Awgrymodd y dylai'r adolygiad ystyried tua hanner dwsin o faterion o fis Hydref hyd y Nadolig; gofynnodd i'r aelodau gyflwyno unrhyw syniadau i'r ysgrifenyddiaeth.

**<u>Eitem 1: Adroddiad y Gweinidog</u>**

**<u>CC-19-01(p.1)</u>**

Derbyniodd y Gweinidog gwestiynau ar yr adroddiad a gwnaed y pwyntiau canlynol bryd hynny:

- Mynegwyd pryder ynghylch y cais gan Stadiwm y Mileniwm am gymorth tuag at ddiffyg ariannol o £9.1m. Roedd yr Aelodau yn siomedig hefyd i'r ymgyrch am adnoddau ychwanegol gael ei gynnal i raddau helaeth trwy'r cyfryngau.

- Roedd aelodau'n bryderus hefyd ynghylch Opera Cenedlaethol Cymru lle roedd cerddorion yn colli eu swyddi parhaol a nifer y staff gweinyddol yn cynyddu.

- Codwyd eto fater cyllid i Ganolfan y Mileniwm, yn arbennig y diffyg cefnogaeth i bob golwg gan Gyngor Dinas Caerdydd, ac a oedd gwersi wedi eu dysgu o'r ffordd y trafodwyd y Ganolfan Gelfyddydau Gweledol a fu'n fethiant.

- Teimlwyd na roddwyd digon o ystyriaeth i anghenion ardaloedd gwledig yn rhaglen chwaraeon y Gronfa Cyfleoedd Newydd.

Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol wrth ymateb:

- Yr oedd ymholiadau helaeth wedi datgelu nad oedd Comisiwn y Mileniwm wedi cynnig y mwyafswm grant o £50m a oedd yn cael ei geisio yn awr gan Stadiwm y Mileniwm yn hytrach na'r £46m a ddyfarnwyd iddynt.

- Mater i Gyngor Dinas Caerdydd yn unig oedd ariannu gostyngiad mewn trethi lleol, nid mater i'r Cynulliad.

- Roedd gwahoddiad wedi ei estyn i Gadeirydd Stadiwm y Mileniwm i drafod y materion hyn; ni chafwyd ateb eto.

- Roedd Opera Cenedlaethol Cymru yn mynd trwy broses o sefydlogi dan arweiniad Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae hyn yn galw am archwiliad trylwyr o'r sefydliad; o ganlyniad mae 6 o offerynwyr wedi colli eu swyddi parhaol. Mae'n debyg mai'r gofynion ychwanegol ar y cwmni o ran teithio a gweithio â chymunedau lleol sy'n gyfrifol am y cynnydd yn nifer y staff gweinyddol. Cynigiodd y Gweinidog ysgrifennu yn nodi'r manylion.

- Yngl•n â Chanolfan y Mileniwm, roedd y Cynulliad wedi dweud yn bendant na fyddai ei gyfraniad yn fwy na £37m.

- Nid oedd y swm o £48.5m gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer cyfleusterau chwaraeon yn cynnwys elfen wledigrwydd gan mai cronfeydd ar gyfer adeiladau oedd y rhain ac nid oedd tystiolaeth i awgrymu bod y rhain yn golygu costau ychwanegol mewn ardaloedd gwledig. Roedd y Cyngor Chwaraeon, a oedd yn cynnal dadansoddiad manwl o'r ddarpariaeth chwaraeon yng Nghymru, wedi cydweithio'n agos â'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar y dyfarniad i Gymru.

**<u>Eitem 2: Adroddiad ar Gynnydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru</u>**

**Papur: CC-19-01(p.2)**

Llongyfarchodd y Cadeirydd Peter Tyndall ar ei benodi'n Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru a chroesawodd ef i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Diwylliant. Dymunai ganolbwyntio ar dri mater:

- sut yr oedd y gwaith o ailwampio Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn mynd rhagddo
- ymateb CCC i Strategaeth Ddiwylliant y Gweinidog – Dyfodol Creadigol
- effaith Cymru'n Creu.

Yr Ailwampio

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ar gynnydd yn tynnu sylw at y broses ailwampio ac ymgynghori helaeth a oedd bellach ar waith. Roedd camau gweithredu Dyfodol Creadigol yn cael eu hymgorffori yn y strategaeth bum-mlynedd a oedd yn cael ei llunio i ddatblygu'r celfyddydau, a rhoddai hyn ryddid i'r Cyngor i weithredu blaenoriaethau'r Cynulliad. At ei gilydd roedd hwn yn gyfnod cyffrous i CCC, yn rhannol oherwydd bod arian 'newydd' bellach ar gael iddynt ailedrych ar sefyllfa cyrff fel Opera Cenedlaethol Cymru a oedd wedi ei dangyllido ers peth amser, cyflwyno grantiau tair-blynedd a chefnogi datblygiadau newydd.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd y Pwyllgor am oleuni yn arbennig ar yr haen ranbarthol newydd a hefyd ar swyddogaeth y Cyngor ei hun. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Wrth ymateb i bryder ynghylch swyddogaeth y swyddfeydd rhanbarthol a'u perthynas â'r brif swyddfa, eglurwyd bod yr ailwampio yn ddatganoli gwirioneddol ac y byddai gan y Cyfarwyddwyr (yn wahanol i'r sefyllfa yn y gorffennol) swyddogaeth reoli. Ar wahân i'r ddwy swyddfa ranbarthol ym Mae Colwyn a Chaerfyrddin, byddai swyddfa fechan yng Nghanolbarth Cymru. Holodd yr aelodau a fyddai honno yn ddigon.

- Llwyddwyd i gryfhau'r swyddfeydd rhanbarthol o fewn yr adnoddau presennol, ac mae'r ailwampio i gyd wedi arwain at golli pedair swydd, gan ddod â nifer y staff i lawr i 81.

- Roedd y Cyngor yn atebol i'r Cynulliad ond roedd ganddynt hefyd swyddogaeth fel eiriolwyr dros y celfyddydau ac roeddent yn gyfrifol am gynorthwyo cymuned y celfyddydau â materion gweinyddol fel sefydlu busnesau a hyfforddi staff newydd.

- Roedd y Cyngor wedi lleihau mewn nifer ac roedd y gynrychiolaeth ddaearyddol arno yn well nag y bu. Yn y gorffennol roedd wedi treulio gormod o amser yn edrych yn ôl, ond gallai'r Cyngor newydd, mwy hyblyg, gymryd golwg fwy strategol a chydbwyso hynny â'i swyddogaeth archwilio.

- Câi Is-Gadeirydd ei benodi yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr.

Y Strategaeth Ddiwylliant

Dywedodd y Cadeirydd i’r Strategaeth gael ei chroesawu yn y Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn a bod gan CCC ran allweddol yn y gwaith o’i gwireddu. Gofynnodd yr Aelodau am farn ar fwriadau CCC yn nifer o feysydd y celfyddydau:

- Pan ofynnwyd am gynigion ar gyfer y theatr Gymraeg, dywedodd CCC eu bod yn meddwl datblygu corff comisiynu yn hytrach nag un theatr, i lwyfannu digwyddiadau yn amrywio o rai cymunedol i ddigwyddiadau mawr. Byddai angen cyllid ychwanegol; byddent felly yn rhoi hyn ar waith fesul cam.

- Pwysleisiodd aelodau bwysigrwydd celfyddydau yn y gymuned. Dywedodd CCC y byddai hwn yn un maes a gâi flaenoriaeth ac y gallai prosiectau cymunedol dan eu cynllun grantiau diwygiedig bellach wneud cais am gyllid refeniw. Roedd CCC hefyd yn gobeithio cynnwys y celfyddydau mewn prosiectau adfywio cymunedol.

- Pan ofynnwyd am gymorth ar gyfer ysgrifennu creadigol, dywedodd CCC y byddai’r strategaeth ddrama yn cynnig cyfleoedd i ysgrifennu gwaith newydd i’r theatr ac y byddai’r Pwyllgor Ffilm yn canolbwyntio ar ddatblygu sgriptiau.

- Sicrhaodd CCC yr aelodau eu bod yn awyddus i’r hen lyfrgell yng Nghaerdydd gael ei defnyddio at ddibenion diwylliannol ond gan mai eiddo Cyngor Sir Caerdydd ydoedd nid CCC oedd â’r hawl i benderfynu ar ei dyfodol. Dywedodd y Cadeirydd fod cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y cais i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn cofnodi bod yr awdurdod lleol yn ymwybodol o’r angen i gysylltu’r adeilad â’r cais.

Cymru’n Creu

Adroddodd CCC fod ffurfio Cymru’n Creu wedi peri newid sylfaenol ym mharodrwydd yr asiantaethau a oedd yn aelodau ohono i gydweithio. Roedd partneriaethau gwahanol yn cael eu creu yn ôl natur y prosiectau.

Diolchodd y Cadeirydd i CCC am fynychu’r Pwyllgor; byddai gwahoddiad arall yn cael ei estyn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

## Eitem 3: Adolygiad o’r Gymraeg

**Papur: CC-19-01(p.3&3a)**

Wrth gyflwyno'r eitem, dywedodd y Cadeirydd fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cael gwahoddiad i drafod datblygiad yr adolygiad gan nad oedd yr Arglwydd Prys Davies wedi gallu mynychu. Roedd y papur ategol, a baratowyd gan yr ysgrifenyddiaeth, yn nodi rhai o'r prif faterion a oedd wedi codi yn ystod yr adolygiad; nid oedd y papur yn awgrymu mai dyna'r meysydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt na'u trafod yn y cyfarfod hwn.

Yn ystod trafodaeth gyffredinol ar y papur codwyd y pwyntiau canlynol:

- Dylai'r adroddiad gynnwys adran ar swyddogaeth y Cynulliad.

- Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd Cyfle Cyfartal yn gofyn i'w Phwyllgor hi ystyried cydraddoldeb ieithyddol a oedd wedi ei godi sawl gwaith yn yr adolygiad.

- Roedd yn bwysig rhoi ystyriaeth i drafodaethau'r pwyllgorau rhanbarthol a phwyllgorau pwnc eraill a dylid trefnu sesiwn ar gyfer hynny.

- Roedd yr Aelodau hefyd yn dymuno cael dadl annibynnol ar gyfieithu. Awgrymwyd y dylai honno fod ar ffurf trafodaeth (yn hytrach na thystiolaeth) â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyfieithwyr y Cynulliad ei hun.

- Roedd angen dadansoddi'r dystiolaeth yn fanwl; câi hynny ei wneud gan yr ysgrifenyddiaeth. Byddai'r Cadeirydd a'r Ymgynghorydd arbenigol yn llunio papur safbwynt ar wahân.

- Roedd angen trafodaeth ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Un awgrym oedd y gallai'r Pwyllgor ystyried ffyrdd o ehangu a datblygu'r Ddeddf bresennol i ganfod i ba raddau y gellid defnyddio is-ddeddfwriaeth.

Gwahoddwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i roi eu barn ar gynnydd. Prif bwyntiau eu cyflwyniad oedd:

- Roedd y camau a oedd yn cael eu cymryd tuag at dderbyn dwyieithrwydd fel mater trawsbynciol yn y Cynulliad a chan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn galonogol

- Cytunai ByrIG y dylai adroddiad y Pwyllgor gynnwys adran ar y Cynulliad ei hun a ddylai, fe awgrymai, fod ag uned fewnol i ddatblygu'r iaith

- Roedd diddordeb y Bwrdd mewn camau ymarferol fel y rhai a awgrymwyd gan Gyngor

Sir Gwynedd a Mark Tewdwr Jones yn hytrach nag mewn datganiadau athronyddol. Roedd Popeth Cymraeg, Nant Gwrtheyrn, ELWa ac adroddiad y Bwrdd ei hun, 'Dysgu Cymraeg i Oedolion' i gyd wedi awgrymu ffyrdd uniongyrchol o symud ymlaen

- Cytunai'r Bwrdd fod yna wendidau yn y data a oedd ar gael ar hyn o bryd ar yr iaith a chyfeiriwyd yr aelodau at y papur a gyflwynwyd gan eu Prif Weithredwr ar gasglu data

- Ailadroddodd y Bwrdd y cyngor a roddwyd ganddynt yn flaenorol sef nad oeddent yn argyhoeddiedig y deuai unrhyw fudd o ddeddfwriaeth iaith newydd. Roeddent yn credu, fodd bynnag, fod angen polisi cenedlaethol y dylai'r Cynulliad cyfan ei roi ar waith

- Nid oedd targed 2010 y Cynulliad ar gyfer nifer siaradwyr Cymraeg yn ddigon uchelgeisiol; roedd angen rhagor o dargedau ac angen nodi sut y caent eu mesur

Roedd blaenoriaethau gweithredu'r Bwrdd yn cynnwys:

- trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- addysg feithrin
- pobl ifainc
- cymunedau a'r ardaloedd Cymraeg
- dysgwyr o oedolion.

Yn y drafodaeth roedd teimlad bod angen goleuni ar swyddogaeth y Bwrdd ac adroddodd y Gweinidog fod y gwaith o sefydlu uned fewnol ar yr iaith yn y Cynulliad wedi cychwyn, a bod y cysyniad o'r iaith fel thema drawsbynciol yn cael ei gynnwys yng nghynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd**

**Papur: CC-18-01(min)**

Gofynnodd y Gweinidog am newid i eitem 2. Roedd yn dymuno ei gwneud yn glir mai â Chyngor Sir y Fflint, nid â Chlwyd Theatr Cymru, yr oedd hi a'r Gweinidog Cyllid wedi cwrdd i drafod dyfodol y cwmni hwnnw.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2001**